Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Craig y Don

**Ffordd Clarence**
**Craig y Don**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 1TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2011**

**gan**

**Gareth Wyn Roberts**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Yn ardal Craig y Don o dref wyliau Llandudno, ar arfordir y gogledd, y mae'r ysgol gynradd gymunedol hon. Rheolir yr ysgol gan Gyngor Sir Conwy. Ar hyn o bryd, mae ganddi 441 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed, a'r hyn sy'n cyfateb i 27 o blant meithrin llawn amser, ar y gofrestr.

Daw bron y cyfan o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae llai na dau y cant o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Mae wyth y cant o'r disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol neu o dras gymysg ac mae chwech y cant yn dysgu Saesneg yn iaith ychwanegol. Gwasanaetha'r ysgol ardal sy'n cynnwys rhannau ffyniannus o'r dref a rhannau o dan anfantais economaidd. Mae 34.4% o blant Ysgol Craig y Don yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan 23% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim (PYD). Mae gan yr ysgol chwech o blant 'mewn gofal'.

Dywed yr ysgol ei bod yn derbyn disgyblion gydag ystod gallu eang. Pan ddechreuant yn yr ysgol, mae nifer y disgyblion sy'n cael eu harenwi fel disgyblion gydag anghenion ieithyddol tua dwywaith cymaint â chyfartaledd y sir. Mae 22% o'r disgyblion wedi cael eu harenwi fel disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan ddau y cant o'r disgyblion ddatganiad o AAA. Mae 13% wedi eu dosbarthu i'r categori 'ysgol a mwy'.

Gan gynnwys y pennaeth, mae 16 o athrawon llawn amser a thair rhan amser. Yn ogystal, mae 17 o staff cefnogi llawn amser a dwy rhan amser. Mae gan yr ysgol 16 o ddosbarthiadau.

Ers yr arolygiad diwethaf, a gynhaliwyd yn Chwefror 2005, un mis ar ôl penodiad y pennaeth presennol, cynyddodd nifer y disgyblion a'r plant yn yr ysgol o tua 40. Ar hyn o bryd, mae canran uwch o'r disgyblion yn perthyn i grwpiau lleiafrifol ethnig neu yn dysgu Saesneg yn iaith ychwanegol, Cynyddodd nifer y disgyblion ag AAA, er bod canran y disgyblion ar ddatganiadau AAA wedi gostwng. Yn ogystal, cynyddodd nifer y dosbarthiadau, nifer yr athrawon llawn a rhan amser a nifer y staff cefnogi amser llawn. Yn awr, mae gan yr ysgol staff cefnogi rhan amser. Mae canran y disgyblion sydd â hawl i dderbyn PYD wedi parhau i gynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Craig y Don yn 2010-2011 yw £2985 sy'n cymharu gydag uchafswm o £9816 ac isafswm o £2909 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghonwy. Dyma'r ysgol sydd â'r 59 fed gyllideb y pen uchaf o'r 61 ysgol gynradd yng Nghonwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae hon yn ysgol dda oherwydd bod:

gan yr ysgol ethos croesawgar sy'n sicrhau bod pob disgybl a phlentyn yn teimlo'n ddiogel a hapus;

y safonau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni'n dda;

ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad yn rhagorol;

ansawdd yr addysgu'n dda;

gan yr ysgol bartneriaethau cryf iawn sy'n cael dylanwad da ar y ddarpariaeth.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

ansawdd arweinyddiaeth y pennaeth;

ymrwymiad cadarn i gefnogi cyflawniad a lles disgyblion;

ymrwymiad i hunan arfarnu, cynllunio strategol a hunan welliant parhaus.

## Argymhellion

I sicrhau gwelliant pellach, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Craig y Don:

A1. godi safonau mewn agweddau o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a datblygu ymhellach sgiliau meddwl trwy'r ysgol;*

A2. sicrhau bod yr arferion addysgu rhagorol a welir mewn rhai dosbarthiadau yn cael eu lledaenu trwy'r ysgol;*

A3. sicrhau bod cyswllt cryfach rhwng y gwaith a wneir yn y dosbarthiadau a gwaith disgyblion sy'n cael eu tynnu o'r dosbarth i gael rhagor o gefnogaeth AAA:

A4. barhau i drafod gyda'r awdurdod lleol (ALl) er mwyn mynd i'r afael â phroblem gorboblogi.*

*Mae'r argymhellion hyn yn nodwedd o'r cynllun datblygu ysgol neu'r adolygiad hunan arfarnu.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn ymateb i'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae perfformiad yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg, yr ALl a Chymru. Yn 2010, roedd canran y disgyblion cyfnod allweddol (CA)1 yn cyrraedd y dangosydd pynciau craidd (DPC[1]) uwchlaw cyfartaledd yr ALl a Chymru ac yn gosod yr ysgol ar frig yr ail chwartel mewn cymhariaeth ag ysgolion sydd â nifer cyffelyb o ddisgyblion gyda'r hawl i PYD. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn dda a deilliannau yn Saesneg yn well fyth. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 3 yn y pynciau craidd unigol yn parhau yn debyg i gyfartaledd yr ALl a Chymru.

[1] DPC: yn cyrraedd y lefel disgwyliedig ar gyfer y cyfnod allweddol mewn cyfuniad o nail ai Cymraeg (Iaith gyntaf) neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn CA2, dros y tair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y DPC wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd yr ALl a Chymru ac yn chwartel uchaf ysgolion cyffelyb. Mae perfformiad yn y Saesneg a mathemateg wedi bod yn dda ac yn well na'r perfformiad mewn gwyddoniaeth. Yn 2010, disgynnodd canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 neu well yn y pynciau craidd unigol islaw cyfartaledd yr ALl a Chymru.

Mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol. Yn 2010, roedd y gwahaniaeth yn fwy arwyddocaol yn CA1 nag yn CA2. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn amlwg yn y safonau cyflawniad a welwyd yn y dosbarth.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i PYD wedi gwella mewn cymhariaeth â'r rhai heb hawl i PYD. Yn 2010, yr oedd perfformiad disgyblion â hawl i PYD yn arwyddocaol well na chyfartaleddau'r ALl, Cymru a'r teulu o ysgolion.

Yn y pynciau craidd unigol, mae canran y disgyblion galluog a thalentog sy'n cyrraedd lefel 3+ yn CA1, neu lefel 5+ yn CA2, yn cyfateb i gyfartaledd yr ALl a Chymru, neu islaw iddynt. Fodd bynnag, mae cyflawniad y disgyblion galluog a thalentog, yn fechgyn a merched yn B6, wrth ysgrifennu ac mewn agweddau o fathemateg yn rhagorol. Mae'r ychydig o ddisgyblion 'mewn gofal' yn gwneud y cynnydd y byddid yn ei ddisgwyl mewn perthynas â'u gallu. Mae disgyblion yn dysgu Saesneg yn iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau pynciol. Mae'r disgyblion mwy abl a thalentog yn gwneud cynnydd arbennig o dda mewn ysgrifennu a mathemateg erbyn diwedd CA2. Mae'r disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ar goedd yn rhugl a gyda mynegiant ystyrlon. Defnyddiant eiriadur a sgiliau ymchwilio yn dda. Ysgrifenna disgyblion yn dda, gyda lleiafrif ohonynt yn gwneud hynny'n arbennig o dda. Mae cyflwyniad eu gwaith, eu sillafu a'u hatalnodi'n dda. Mae sgiliau rhifedd disgyblion yn dda. Yn TGCh, mae eu gallu i gyflwyno gwybodaeth yn dda, er nad yw eu gallu i drin data wedi datblygu cystal. Mae sgiliau meddwl y disgyblion yn ddigonol.

Gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd da wrth ddysgu'r Gymraeg yn ail iaith. Erbyn diwedd CA2, mae eu dealltwriaeth o'r hyn a glywant yn y Gymraeg yn arbennig o dda. Gydag anogaeth, mae'r mwyafrif yn siarad yn dda. Mae disgyblion hyd at B4 yn darllen ac ysgrifennu'n dda; mae'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion hŷn mewn darllen ac ysgrifennu'n ddigonol.

**Lles: Rhagorol**

Mae'r holl ddisgyblion yn falch iawn o'u hysgol. Maent yn mwynhau'r ysgol ac yn credu bod y staff yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu ar eu hawgrymiadau.

Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel iawn yn yr ysgol. Mae ymddygiad yn rhagorol ac mae gan ddisgyblion ofal gwirioneddol dros y naill a’r llall. Os cyfyd problem, mae’r disgyblion yn gwybod lle i fynd i gael cymorth ac yn gwybod y caiff camau priodol eu cymryd.

Mae pob disgybl yn deall sut i fyw bywyd iach. Gwyddant pa ddewisiadau y mae’n rhaid iddynt eu gwneud i fwyta’n iach ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon sydd ar gael iddynt.

Mae cymhelliad pob disgybl yn uchel ac mae gan y disgyblion agwedd ragorol tuag at ddysgu; cânt gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd rhagorol. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, a llawer o ddisgyblion CA2, yn gwneud dewisiadau am yr hyn y maent eisiau ei ddysgu. Mae’r holl ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol at drafodaethau. Cyfathrebant syniadau’n eglur iawn gan gyfeirio’n aml at ddysgu blaenorol. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth gref o ffyddlondeb i’w cymuned ac mae llawer yn ymwneud â nifer da o brosiectau yn y gymuned.

Caiff y Cyngor Ysgol effaith gadarnhaol ar gymuned yr ysgol. Mae’r disgyblion yn ystyried hyn fel adnodd gwerthfawr a ddefnyddiant i wneud newidiadau yn yr ysgol.

Mae presenoldeb (93.9%) wedi gwella’n gyson dros y tair blynedd diwethaf ac mae’n awr ar draws y cyfartaleddau cenedlaethol ac ALl.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae bron y cyfan o’r athrawon yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu ysgogol i fodloni anghenion y disgyblion. Mae’r disgyblion wedi cael eu paratoi’n dda i ddod yn aelodau cyfrifol o’u cymuned.

Mae bron bob gwers wedi ei chynllunio’n dda gan ddefnyddio ystod o weithgareddau ac adnoddau diddorol. Mae cynlluniau’r athrawon ar gyfer gwersi unigol yn pwysleisio datblygu’r sgiliau allweddol, yn arbennig llythrennedd a rhifedd. Mae’r ysgol wedi ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a gofynion Cwricwlwm 2008.

Mae’r ddarpariaeth yn dda ar gyfer disgyblion sy’n dysgu Saesneg yn iaith ychwanegol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA sy’n cael eu tynnu o ddosbarthiadau yn amrywio o ran ansawdd, ond yn gyffredinol, mae o leiaf yn ddigonol.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r gymdogaeth i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog sy'n galluogi'r disgyblion i fagu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o amgylchedd a hanes yr ardal. Mae'r ysgol yn talu sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig ac i ddysgu Cymraeg yn Ail Iaith, yn arbennig hyd at B4.

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fydeang yn rhagorol. Mae gan yr ysgol, ynghyd â phartneriaid eraill yn y gymuned a thu hwnt, gysylltiadau cryf iawn ag ysgolion yn Affrica. Defnyddia asiantaethau allanol y gwaith a wneir fel enghraifft o arfer ragorol. Mae hyn yn cael effaith lesol iawn ar agweddau'r disgyblion, gan gynnwys gwrthsefyll hiliaeth.

Mae pob un o'r athrawon yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy. Derbyniodd yr ysgol wobr arian y Fenter Eco-sgolion. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth hybu mentrau fel ailgylchu, arbed ynni a bwyta iach. Mae ardal allanol yr ysgol a enillodd wobrau yn cynyddu cyfleoedd dysgu ac yn hybu brwdfrydedd y plant dros ddysgu.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda iawn mewn tua chwarter y gwersi ac mae'n dda ym mron y cyfan o'r gweddill. Lle bo addysgu ar ei fwyaf effeithiol, mae'r staff yn cymell, yn herio ac yn ennyn diddordeb y disgyblion gan roi iddynt radd arwyddocaol o annibyniaeth. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Mae'r staff yn gosod amcanion dysgu eglur; mae i'r gwersi gyflymder da a strwythur eglur. Defnyddia athrawon ystod eang o adnoddau i gyfoethogi'r dysgu. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu'n ddigonol, mae llawer o'r nodweddion da uchod yn bresennol ond nid yw'r addysgu yn cyfarfod ag anghenion disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigonol ac nid yw'r disgyblion yn profi digon o annibyniaeth yn eu dysgu.

Mae'r staff cefnogi yn glir iawn ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Mae'r berthynas rhwng yr athrawon, y staff cefnogi a'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r cyfan o'r uchod yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at wella safonau.

Mae gan yr ysgol gyfundrefnau eglur ac effeithlon i asesu cynnydd disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a CA2. Defnyddir profion safonol ac asesiadau athrawon i osod targedau unigol realistig a heriol. Mae'r adroddiadau i rieni'n fanwl ac yn cydymffurfio â gofynion. Fodd bynnag, teimla ychydig o rieni eu bod yn amhersonol a chytuna'r tîm â'r farn hon.

Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu'r gwersi gyda'r disgyblion ac yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn darparu meini prawf llwyddiant sy'n cael eu trafod ar derfyn uned o waith. Lle bo'r arfer gorau, mae'r meini prawf hyn yn cael eu sefydlu gan y disgyblion eu hunain ac maent yn arfarnu pa mor dda y maent wedi eu cyflawni. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ond mewn lleiafrif o enghreifftiau yn unig y cynigia'r athrawon sylwadau ysgrifenedig sy'n gymorth i ddisgyblion wella eu dysgu eu hunain.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles yn rhagorol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu trwy amrediad da o fentrau gan gynnwys agweddau o’r cwricwlwm, gweithgareddau tu allan i’r ysgol ac ymweliadau preswyl. Mae hon yn gymuned ddysgu ofalgar iawn lle mae’r staff a’r disgyblion yn parchu’r naill a’r llall.

Mae datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda; mae pob gofyn statudol yn cael ei gyfarfod yn llawn. Mae datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda.

Mae’r broses ar gyfer adnabod disgyblion ag AAA yn dda. Mewn lleiafrif o grwpiau AAA, nid yw’r cyswllt rhwng y gwaith a wneir gan y disgyblion yn y dosbarth a phan gânt eu tynnu allan yn ddigon cryf. Mae darparu cefnogaeth ar gyfer disgyblion a gafodd brofedigaeth yn dda iawn trwy gyfrwng y grŵp ‘Seasons for Growth’ (Tymhorau Twf) a sesiynau unigol gyda chynghorwyr ‘Cruise’. Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol i ymestyn, cefnogi ac arwain disgyblion gydag ADY.

Mae gweithdrefnau diogelu a pholisi priodol, manwl yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu diwallu’n llawn.

Mae gan yr ysgol ddulliau da iawn o ganfod disgyblion galluog a thalentog. Cymer y disgyblion hyn fantais dda o’r llawer o gyfleoedd i ymestyn a datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u sgiliau tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth a weithiau mewn cydweithrediad ag ysgolion lleol eraill.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn rhagorol. Darpara’r ysgol amgylchedd diogel, sicr ac iach lle mae disgyblion o bob cefndir a gallu’n cael eu hannog a’u cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial yn academaidd a chymdeithasol.

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae gan ddisgyblion fynediad cyfartal i amrediad eang o weithgareddau sy’n datblygu eu balchder, eu hyder, eu dealltwriaeth a’u gallu i uniaethu ag eraill. Mae’r gweithgareddau’n cynnwys cysylltiadau cymunedol a rhyngwladol cryf.

Sefydlwyd polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer delio ag agweddau o iechyd a lles disgyblion. Cynorthwyodd disgyblion yn y broses o lunio rheolau ysgol, sy’n cael eu deall a’u parchu’n dda.

Mae nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol uwchlaw cynhwysedd swyddogol yr ysgol ar hyn o bryd ac yn aml mae’r ystafelloedd dosbarth yn rhy fach ar gyfer nifer y dysgwyr. Rhaid i amseroedd egwyl a chinio gael eu hamseru ar adegau gwahanol fel nad yw’r neuadd a iardiau’r ysgol yn orlawn ar unrhyw un adeg.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o brosiectau amgylcheddol blaengarol sydd wedi ennill gwobrau.  Cawsant eu datblygu ar dir yr ysgol gyda chymorth y gymuned.

Gwneir defnydd da o arddangosfeydd ac adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu.  Gwna’r ysgol ddefnydd rheolaidd o gyfleusterau cymunedol a sirol i gyfoethogi ei chwricwlwm.

Caiff yr adeilad ei gynnal yn dda ond nid yw’n cyfarfod â disgwyliadau cyfredol.  Nid yw’r llyfrgell yn ddigonol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae’r pennaeth yn arweinydd effeithiol sy’n sicrhau safonau da, ac yn achos disgyblion galluog a thalentog, safonau rhagorol.  Mae wedi datblygu synnwyr cryf iawn o weithio fel tîm.  Mae holl aelodau’r staff yn cydweithio’n agos i sicrhau safonau uchel.  Mae’r disgrifiadau swyddi yn amlinellu’n eglur rolau a chyfrifoldebau staff, gan gynnwys cydlynwyr cwricwlwm a rhai sydd â Chyfrifoldebau Addysgu a Dysgu.  Rhoir sylw da i reoli perfformiad ac mae’r deilliannau’n llywio’r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) a gofynion hyfforddi staff.  Mae’r trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant holl aelodau’r staff yn darparu cyfleoedd da iddynt gaffael sgiliau newydd ac adfyfyrio ar arfer dda.  Telir sylw da i gyfarfod â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn arbennig o dda.  Mae ganddynt wybodaeth dda am eu cyfrifoldebau a gweithiant yn agos gyda’r pennaeth i osod cyfeiriad strategol priodol ar gyfer datblygu’r ysgol.  Gweithiant yn dda fel ffrindiau beirniadol a heriant benderfyniadau.

Mae aelodau o’r corf llywodraethol yn ymweld â’r ysgol i drafod datblygiadau gyda chydlynwyr pynciol ac i arsylwi gwersi.  Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael tystiolaeth uniongyrchol o gyflawniad disgyblion.

Mae safbwyntiau disgyblion a’u hymwneud â materion ysgol yn cael dylanwad da ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r trefniadau hunan arfarnu’n darparu ystod dda o dystiolaeth.  Mae swyddogaeth a chyfraniad yr holl staff i’r broses wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar.  Mae barn disgyblion a rhieni yn gymorth i bennu cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant ac maent yn dechrau cael effaith ar ddysgu disgyblion, er enghraifft trwy ddarparu mwy o fewnbwn gan ddisgyblion i’r hyn sy’n cael ei ddysgu.

Gwneir defnydd da o ddata i dracio cynnydd disgyblion ac i adnabod unigolion neu grwpiau o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth bellach.

Mae gan yr ysgol drosolwg manwl dwy flynedd o'r meysydd y mae wedi eu hadnabod ar gyfer gwelliant. Caiff hyn ei drafod yn rheolaidd gydag aelodau o staff. Mae'r CDY yn canolbwyntio ar gyflawni safonau uchel ac yn adnabod y prif flaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae hefyd yn darparu canllawiau ar gost, yr amserlen ar gyfer gweithredu a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth.

Mae cydweithio ag ysgolion cyfagos wedi bod o gymorth i wella'r addysgu a'r dysgu. Mae llawer o athrawon wedi ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer effeithiol. Yn ddiweddar, sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol (CDdB) i astudio dulliau o gynyddu hyder disgyblion wrth siarad Cymraeg gyda'r naill a'r llall. Yn ychwanegol, mae CDdB arall sy'n astudio asesu wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi meithrin amrediad eang iawn o bartneriaethau strategol defnyddiol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Sefydlwyd partneriaeth gref gyda'r rhieni ac o ganlyniad mae'r staff wedi ennill eu hymddiriedaeth a'u cefnogaeth. Mae hefyd gysylltiadau agos iawn â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysg. Mae'r ysgol yn cael ei chefnogi'n dda gan yr ALl. Mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn cael ei hybu mewn modd rhagorol trwy gysylltiadau rhyngwladol gweithredol a thrwy astudio gwledydd eraill.

Mae cymedroli a safoni ar y cyd gydag ysgolion clwstwr ar ddiwedd asesiadau CA2 yn dod â thrylwyredd i'r broses. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd lleol i baratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg. Mae cyd-drefnu a rhannu adnoddau gyda sawl ysgol leol yn gryfder.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda. Caiff y gyllideb ei monitro'n rheolaidd a bu'r weddilleb dros y tair blynedd ddiwethaf o fewn tri i bedwar y cant.

Mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau dysgu perthnasol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i wella'r addysgu a'r dysgu ac i godi safonau.

Mae'r ysgol yn cyflogi nifer priodol o athrawon. Mae hyfforddwyr a staff cefnogi yn cyfrannu'n arwyddocaol at sicrhau safonau uchel.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae'r rhain wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygu sgiliau newydd a rhannu arfer dda.

Deliwyd â'r nifer bychan o argymhellion yn adroddiad diweddaraf yr archwiliwr.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 84 o holiaduron yn cynrychioli tua chwarter cyfanswm y rhieni. Ar y cyfan, mynegant safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol. Mae bron bob rhiant yn fodlon gyda'r ysgol ac mae pawb yn dweud bod eu plant yn hoffi bod yno. Mae pawb yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod yr ysgol yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau. Dywedant i gyd bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer yn rheolaidd. Mae bron pob rhiant yn credu bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod yr addysgu'n dda. Mae bron pawb yn credu bod y staff yn trin eu plant yn deg a gyda pharch. Mae llawer yn credu bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae bron pawb yn dweud bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn hawdd mynd yno os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae'r rhan fwyaf yn credu eu bod yn cael gwybod yn dda am y cynnydd a wna eu plant.

Mae ychydig o rieni yn ansicr am weithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae ychydig hefyd yn ansicr a yw eu plentyn wedi ei baratoi'n dda i symud i gam nesaf ei ddysgu.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd holiaduron gan tua chwarter disgyblion CA2, wedi eu dewis ar hap. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn teimlo ei fod yn gwneud yn dda. Mae bron pawb yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda. Maent i gyd yn dweud eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i ymarfer yn rheolaidd. Mae pob un yn dweud bod yr addysgu'n dda ac yn credu bod y gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio ac mae bron pob un yn dweud bod ganddynt rywun i siarad ag ef neu hi os ydynt yn bryderus. Er bod bron pob un yn dweud bod plant yn ymddwyn yn dda yn ystod amser chwarae ac amser cinio, mae ychydig yn credu bod ymddygiad gwael yn y dosbarth yn eu hatal rhag cario ymlaen â'u gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Phil Mostert | Arolygydd Tîm |
| Gwynne Jones | Arolygydd Tîm |
| Alison Matthias | Arolygydd Cymheiriaid |
| Marc Hughes | Enwebai'r ysgol |

Y contractwr ar gyfer yr arolygiad hwn oedd:

Cwmni Cynnal
Yr Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |